**Efrydiaeth PhD a gyllidir**

Mae Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor yn gwahodd ceisiadau am Efrydiaeth PhD yn dechrau 1 Ionawr 2022.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud PhD llawn-amser ar elfen o ddiwylliant, llenyddiaeth a chymdeithas yr Eidal (yr 20fed ganrif a chyfoes yn ddelfrydol), a chaiff gyfle i gymryd rhan yng nghynllun Addysgu mewn Addysg Uwch Prifysgol Bangor; caiff y ffioedd eu hepgor drwy gydol cyfnod cyflawni'r PhD. Tâl: £14,000 y flwyddyn Mae'r efrydiaeth ar gael tan 31 Rhagfyr 2024 (gydag opsiwn i ymestyn am flwyddyn arall).

Un o amodau'r efrydiaeth hon fydd bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu cymorth gyda dyletswyddau addysgu yn adran Eidaleg yr Adran Ieithoedd Modern a Diwylliannau. Bydd hyn yn bennaf yn cynnwys darparu dysgu iaith, datblygu adnoddau addysgu, a marcio aseiniadau ac ni fydd yn fwy na 16 awr yr wythnos.

Dylai bod gan ymgeiswyr fan leiaf radd gyntaf dda (BA neu gymhwyster cyfwerth), a bod â lefel rhuglder rhagorol mewn Eidaleg, yn ogystal ag uchelgais i wneud ymchwil i lefel doethuriaeth. *(Rhagor o fanylion isod -gweler 'Manyleb')*

Mae Ieithoedd a Diwylliannau Modern ym Mhrifysgol Bangor wedi cael canlyniadau rhagorol yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ac yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y panel REF ar gyfer Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth, daeth Bangor i safle 13 yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Adran Ieithoedd Modern a Diwylliannau yn cynnal diwylliant ymchwil bywiog gyda phroffil rhyngwladol, ac ,ae'r staff academaidd wedi sefydlu projectau o bwys yn unigol ac ar y cyd ag eraill ym meysydd hanes, diwylliannau a gwleidyddiaeth y byd Ffrengig, Sbaenaidd, Almaenaidd ac Eidalaidd, gydag arbenigedd cynyddol mewn Astudiaethau Cyfieithu ac Astudiaethau Dwyrain Asia. Mae ymchwil yn yr Ysgol yn canolbwyntio ar ystod o bynciau rhyng-ddiwylliannol a rhyng-gyfryngol, gan edrych hefyd ar amrywiaeth eang o safbwyntiau diwylliannol penodol. Mae'r Adain Eidaleg yn un o bum adain iaith yn yr Adran Ieithoedd a Diwylliannau Modern, lle dysgir Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg i lefel Anrhydedd Sengl a Chyd-anrhydedd ac Eidaleg a Tsieinëeg i lefel Cyd-anrhydedd. Mae'r Ysgol hefyd wedi creu cynllun gradd tair iaith arloesol a phoblogaidd iawn, ac mae'n cynnig nifer gynyddol o raglenni gradd ar y cyd gydag ystod eang o Ysgolion ar draws y brifysgol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adran a'i staff a'u diddordebau ymchwil yn www.bangor.ac.uk/ml

Ymchwil Ôl-radd - Astudiaethau Eidaleg: https://www.bangor.ac.uk/courses/postduate-research/italian-studies-phd

**PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

**Ymchwil**: Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gofrestru i wneud PhD ar elfen o ddiwylliant, llenyddiaeth a chymdeithas yr Eidal. Mae arbenigeddau ymchwil yn adain Eidaleg yn cynnwys Diwylliannau, Llenyddiaethau a Hunaniaethau De'r Eidal (yn enwedig rhai Sisili); Hanes yr Eidaleg ac Ieithyddiaeth Eidaleg; Llenyddiaeth, Diwylliant a Hanes Cyfoes yr Eidal; Astudiaethau Diwylliannol a Throseddu Trefnedig. Bydd pynciau cymharol neu ryngddisgyblaethol hefyd yn cael eu hystyried. Caiff y ffioedd eu hepgor drwy gydol y radd PhD.

**Bydd y dyletswyddau dysgu'n cynnwys**:

- Cynorthwyo i addysgu modiwlau a gwella sgiliau iaith Eidaleg myfyrwyr israddedig;
- Marcio aseiniadau a rhoi cefnogaeth gydag asesu yn ôl yr angen.
- Ysgogi'r myfyrwyr i gymryd diddordeb yn eu haddysg, a chynnig sylwadau ystyrlon ac adeiladol ynglŷn ag ansawdd eu gwaith;
- Cynorthwyo gyda grwpiau bach o fyfyrwyr israddedig.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu.
- Cynnal a datblygu gweithgareddau ysgolheigaidd yn unol â strategaethau'r brifysgol a'r coleg.

**Bydd dyletswyddau gweinyddol yn cynnwys:**

- Cymryd rhan yng ngweithgareddau recriwtio myfyrwyr a gweithgareddau cynefino'r ysgol;
- Cymryd rhan yn y gwaith o weinyddu rhaglenni israddedig ac ôl-radd;
- Cyfrannu at farchnata'r rhaglen trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau cyswllt yr ysgol a'r coleg a mentrau marchnata eraill;
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau gweinyddol eraill yn ôl cyfarwyddyd Pennaeth yr Ysgol.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Eraill:**

- Disgwylir i ddeiliad y swydd gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu a chydymffurfio â pholisïau a datganiadau cyfle cyfartal, Polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio a Chynllun Iaith Gymraeg y brifysgol.
- Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddyletswydd gofal cyffredinol a chyfreithiol lle mae iechyd, diogelwch a lles yn y cwestiwn, a rhaid iddo/iddi gymryd yr holl gamau sy'n rhesymol i sicrhau amgylchedd gwaith diogel ac iach iddo ef/iddi hi ei hun ac aelodau eraill o'r staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr y mae'r hyn a wna a'r hyn na wna'n effeithio arnynt.

**MANYLEB:**

**<u>Cymwysterau/Hyfforddiant</u>**

**Hanfodol**

- Gradd israddedig (BA neu gymhwyster cyfwerth).

**Dymunol**

- Gradd Meistr berthnasol.

**<u>Profiad/Gwybodaeth</u>**

**Hanfodol**

- Gallu dysgu'n effeithiol mewn maes pwnc perthnasol.
- Gwybodaeth gadarn am feysydd penodol sy'n gysylltiedig â'r swydd a diddordeb ynddynt.
- Uchelgais a gallu i ddilyn ymchwil i lefel ddoethurol.

**Dymunol**

- Profiad o ddysgu grwpiau bychain ac addysgu iaith.
- Profiad o dechnegau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil.

**<u>Sgiliau/Galluoedd</u>**

**Hanfodol**

- Lefel rhuglder rhagorol mewn Eidaleg
- Dulliau arloesol a chyffrous o addysgu ac ymchwilio.
- Gallu gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac ar eich menter eich hun.

- Sgiliau da ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau cyfrifiadurol da, yn cynnwys MS Office. Gallai hynny hefyd gynnwys gwybodaeth am feddalwedd penodol sy'n ymwneud â'r ymchwil.
- Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser.
- Gallu gweithio fel rhan o dîm.

**CYFFREDINOL:**
Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn y gellir cyflawni hyn trwy ddenu, datblygu a chadw amrywiaeth eang o staff o nifer o wahanol gefndiroedd. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu gweithlu o bob rhan o'r gymuned beth bynnag fo eu rhyw, hunaniaeth rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, statws perthynas, crefydd neu gred, dyletswyddau gofalu, neu oedran.
Rydym yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg trwy ein polisi iaith Gymraeg blaengar. Rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chaiff pob cais ei drin yn gyfartal.

Rydym yn aelod o siarter Cydraddoldeb Rhyw Athena SWAN Advance HE ac rydym wedi ennill gwobr Efydd i gydnabod ein hymrwymiad i gydraddoldeb rhyw a'r cynnydd a wneir ym mholisïau, arferion a diwylliant y brifysgol. Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Mae'n ddyletswydd ar holl aelodau'r staff i sicrhau bod eu gweithredoedd yn cydymffurfio ag amcanion amgylcheddol cyffredinol y brifysgol ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Cynigir pob swydd yn amodol ar dystiolaeth o gymhwysedd i weithio yn y Deyrnas Unedig, a derbyn geirdaon boddhaol. Rhaid i'r holl ymgeiswyr ateb gofynion y Deyrnas Unedig o ran 'hawl i weithio' *** Os oes arnoch angen caniatâd y Swyddfa Gartref i weithio yn y Deyrnas Unedig, neu fod angen newid statws eich fisa er mwyn cymryd y swydd hon, rydym yn argymell i chi ddefnyddio'r cyswllt canlynol i gael gwybodaeth am y llwybrau i gyflogaeth ac i fwrw golwg dros y gofynion cymhwysedd: https://www.gov.uk/browse/visas-immigration/work-visas
Sylwer nad ydym yn gallu cyflogi unrhyw un nad yw'n meddu ar hawl cyfreithlon i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Wrth wneud cais am y swydd hon bydd gofyn i chi egluro ar ba sail y credwch y byddwch yn gallu byw a gweithio yn y Deyrnas Unedig yn gyfreithlon ar ddyddiad dechrau'r swydd os bydd eich cais yn llwyddiannus. Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y gallai fod gofyn iddynt wneud cais am dystysgrif y Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd gan Ganolfan Gwrth-Ledaeniad a Rheoli Arfau'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu cyn gallu gwneud cais am fisa
- https://www.gov.uk/guidance/academic-technology-approval-scheme

Sylwer, os derbynnir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd ar gofrestr adleoli'r brifysgol ac sydd â sgiliau sy'n cyfateb yn weddol i ofynion y swydd, y caiff yr ymgeiswyr hynny eu hystyried yn gyntaf.

**SUT I WNEUD CAIS:** Rhaid cyflwyno ceisiadau trwy ein porth ceisiadau ar-lein
https://www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/research/apply_research.php.en

I nodi eich bod am gael eich ystyried ar gyfer yr efrydiaeth hon:

Dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch '**Ysgoloriaethau a Hysbysebwyd ym Mhrifysgol Bangor**...'

Postgraduate Research
(PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)

Your own research project...

PhD project opportunity...

Bangor University Advertised Studentships...

Yna dewiswch '**Efrydiaeth a Ariennir gan Ieithoedd Modern (Eidaleg)**', gan wneud yn siŵr eich bod yn ychwanegu Dr Jonathan Ervine i'r blwch 'Cyswllt Academaidd'. Cliciwch Add.

**Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:**

- Llythyr cais gydag amlinelliad o'ch sgiliau ymchwil
- Copi cyfredol o'ch CV
- Enwau dau ganolwr sy'n gyfarwydd â'ch gwaith academaidd ac ymarferol
- Trawsgrifiadau o'ch cymwysterau

**Dyddiad cau derbyn ceisiadau:** Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021 (12pm GMT)

*Ni dderbynnir ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a ddaw i law ar ôl yr amser a nodir.*

**Funded PhD studentship**

Bangor University's School of Arts, Culture and Language invites applications for a PhD Studentship **commencing 1st January 2022**.

The successful candidate will be expected to undertake a full-time PhD in an element of Italian culture, literature and society (preferably 20th century and contemporary), and will be given the opportunity to participate on Bangor University's *tHE* scheme; fees waived throughout. Stipend: £14,000 per annum. The studentship is available until 31st December 2024 (with an option to extend for a further year).

A condition of this studentship will be that the successful candidate provides assistance with teaching duties in the Italian section of the Department of Modern Languages and Cultures. This will primarily involve providing language teaching, developing teaching resources, and marking assignments and will not exceed 16 hours a week.

Candidates should have at least an undergraduate degree (BA or equivalent) and have an excellent level of fluency in Italian, as well as ambition to pursue research to doctoral level. *(further details below – see 'Specification')*

Modern Languages & Cultures at Bangor University has received excellent results in both the National Student Survey (NSS) and the Research Excellence Framework (REF) over the past years. In the REF panel for Modern Languages and Linguistics, Bangor was rated 13th in the UK. The Department of Modern Languages & Cultures hosts a vibrant research culture with an international profile, and academic staff have established major individual and collaborative projects in the histories, cultures and politics of the Francophone, Hispanic, German and Italian-speaking worlds, with a growing specialism in Translation Studies and East Asian Studies. Research in the School offers an intercultural and intermedial focus whilst also retaining a broad range of culture-specific perspectives. The Italian Section is one of five language sections in Modern Languages & Cultures, where French, German and Spanish are taught to Single and Joint Honours level and Italian and Chinese to Joint Honours level. The School has also pioneered an innovative and very popular three-language degree scheme, and offers a growing number of joint degree programmes with a wide range of Schools across the university.

Information on the Department and its staff and research interests can be found at www.bangor.ac.uk/ml

Postgraduate Research – Italian Studies: https://www.bangor.ac.uk/courses/postgraduate-research/italian-studies-phd

**MAIN DUTIES AND RESPONSIBILITIES:**

**Research:** The successful candidate will be expected to register for a PhD in an element of Italian culture, literature and society. Research specialisms in the Italian section include Italian Southern Cultures, Literatures and Identities (in particular Sicilian); History of the Italian Language and Italian Linguistics; Contemporary Italian literature, culture and history; Cultural Studies and Organised Crime. Comparative or interdisciplinary topics will also be considered. Fees are waived throughout.

**Teaching duties will include:**

- Assisting with module teaching and improving the Italian language skills of undergraduate students;
- Marking assignments and provide support with assessment as required;
- Motivating students to proactive engagement in learning, and provide meaningful and constructive feedback on the quality of their work;
- Assisting with small groups of undergraduate students;
- Assisting with the development of teaching resources;
- Maintaining and developing Scholarly activities in line with University and College strategies.

**Administrative duties will include:**

- Participating in the student recruitment and induction procedures of the School;
- Participating in the administration of undergraduate and postgraduate programmes;
- Contributing to the marketing of programmes by participating in School and College link activities and other marketing initiatives;
- Undertaking other administrative duties and responsibilities as directed by the Head of School.

**Other Duties and Responsibilities:**

- The successful candidate will be expected to participate in developmental activities and to comply with the University's equality policies and statements, Dignity at Work and Study Policy and the University's Welsh Language Scheme.
- The successful candidate will have a general and legal duty of care in relation to health, safety and wellbeing and must take all reasonable steps to ensure a safe and healthy working environment for themselves and for other members of staff, students and visitors affected by their actions or inactions.

**SPECIFICATION:**

**Qualifications/Training**

**Essential**

- An undergraduate degree (BA or equivalent).

**Desirable**

- A relevant Masters degree.

**Experience/Knowledge**

**Essential**

- Effective teaching capability in a relevant subject area.
- Demonstrate knowledge and interest in specific areas related to the post.
- Ambition and ability to pursue research to doctoral level.

**Desirable**

- Experience of small group teaching and language teaching.
- Previous experience of basic techniques related to the area of research.

**Skills/Abilities**

**Essential**

- An excellent level of fluency in Italian
- Innovative and exciting approaches to teaching and research.
- Ability to work effectively as part of a team and on own initiative.
- Demonstrate good verbal and written skills.
- Demonstrate good computer skills, including MS Office suite. This could also include knowledge of specific research related software.
- Demonstrate the ability to prioritise work load and work to deadlines.
- Demonstrate ability to work as part of a team.

**GENERAL:**

The University is committed to supporting and promoting equality and diversity and to creating an inclusive working environment. We believe this can be achieved through attracting, developing, and retaining a diverse range of staff from many different backgrounds. We strive to develop a workforce from all sections of the community regardless of sex, gender identity, ethnicity, disability, sexual orientation, trans identity, relationship status, religion or belief, caring responsibilities, or age. We promote and facilitate the use of the Welsh language through our progressive Welsh Language Policy. We comply with the Welsh Language Standards and are committed to equality of opportunity. You are welcome to apply for any job in English or Welsh and all applications submitted will be treated equally.

We are a member of Advance HE's Athena SWAN Gender Equality charter and hold a Bronze award in recognition of our commitment to and progress towards gender equality within the University's policies, practices, and culture. We are proud to be a Disability Confident employer.

All members of staff have a duty to ensure their actions are in line with the overall environmental aims of the University and minimise their environmental impact.

All offers are made subject to proof of eligibility to work in the UK and receipt of satisfactory references. All candidates must meet the requirements of UK 'right to work' requirements *** If you require Home Office permission to work in the UK, or need to switch your visa status in order to take this job we recommend you use the following link to information about the routes into employment and to check eligibility requirements: https://www.gov.uk/browse/visas-immigration/work-visas Please note that we are unable to employ anyone who does not have the right to live and work in the UK legally. When applying for this post you will be required to explain the basis upon which you believe you will be able to live and work in the UK legally on the commencement date of the role should your application be successful. Candidates should also note that they may be required to apply for an ATAS certificate (Academic Approval Technology Scheme) from the Counter-Proliferation and Arms Control Centre of the Foreign, Commonwealth and Development Office before being able to apply for a visa - https://www.gov.uk/guidance/academic-technology-approval-scheme

Please note that, in the event of applications being received from candidates on the University's Redeployment Register with a reasonable skills match to the post specification, these applicants will be given prior consideration.

**HOW TO APPLY:** Applications must be submitted through our online applications portal https://www.bangor.ac.uk/courses/postgrad/research/apply_research.php.en

To specify that you wish to be considered for this studentship:

Under the **Programmes** tab, please select '**Bangor University Advertised Studentships...**'




Then select '**Modern Languages (Italian) Funded Studentship**', making sure to add Dr Jonathan Ervine to the 'Academic Contact' box. Click Add.

**The application must contain the following documents:**

- A letter of application with an outline of your research skills

- A current copy of your CV
- Names of two referees familiar with your academic and practical work
- Transcripts of your qualifications

The **closing date for applications**: Tuesday, 30th November 2021 (12pm GMT).

*Incomplete applications or applications received after this specified time will not be accepted.*